Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Borth-y-Gest
# Porthmadog
# Gwynedd
# LL49 9UF

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/12/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Borth-y-Gest ym mhentref Borth-y-Gest ger Porthmadog yng Ngwynedd.  Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun, Morfa Bychan gerllaw, a'r ardal wledig o gwmpas.  Cymraeg yw prif iaith yr ysgol.  Mae 66 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 4 o oed meithrin.  Tri dosbarth oed cymysg sydd yn yr ysgol.

Mae tua 40% o ddisgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg.  Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Tua 6% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol.  Mae 25% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol.  Nid oes disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cychwynnodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2015, ond bu mewn gofal o'r ysgol ers Pasg 2014.  Cafodd yr ysgol ei harolygiad diwethaf yn Ionawr 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Borth-y-Gest yn 2016 - 2017 yw £3,281.  Yr uchafswm ar gyfer disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,404 a'r lleiafswm yw £3,089.  Mae Ysgol Gynradd Borth-y-Gest yn safle 87o'r 93 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda
- rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith
- rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm
- rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith
- yr athrawon yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol sy'n ysgogi diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol
- perthynas waith dda yn bodoli rhwng staff a disgyblion ym mhob dosbarth sy'n creu ethos cynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles da disgyblion
- y pennaeth wedi cyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus i'r staff, rhieni a llywodraethwyr
- cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir ac ethos o gydweithio fel tîm yn bodoli ymysg y staff
- y corff llywodraethol yn wybodus, yn gefnogol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol
- yr ysgol wedi datblygu gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n sicrhau dealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella
- y cynllun datblygu ysgol yn cynnwys strategaethau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau
- partneriaethau llwyddiannus yn bodoli gyda rhieni, y gymuned leol a sefydliadau eraill

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb

A2 Cryfhau'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws y cwricwlwm

A3 Ymestyn lefel yr her i ddigyblion o allu uwch ar draws y cwricwlwm

A4 Sicrhau cyfleoedd priodol i aelodau'r tîm rheoli ymgyfarwyddo â, a datblygu ymhellach, eu rolau arweinyddol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau sylfaenol sy'n briodol i'w hoed, ac eithrio yn y Gymraeg, sy'n newydd i tua hanner ohonynt. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n fuan. Maent yn ymateb yn briodol i ystod o gyfarwyddiadau a chwestiynau yn y Gymraeg drwy ddefnyddio patrymau brawddeg syml yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae'rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y Gymraeg, gan ddefnyddio amrywiaeth o eirfa sy'n briodol ar gyfer eu hoed. Caiff hyn ei ddatblygu'n llwyddiannus yng nghyfnod allweddol 2. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gwersi ac ar gyfraniadau disgyblion eraill. Maent yn canolbwyntio'n dda yn ystod gwersi ac yn siarad am eu gwaith â hyder cynyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddefnyddio geirfa briodol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn ymuno â thrafodaethau dosbarth yn frwdfrydig ac yn mynegi eu hunain yn glir a chywir, er enghraifft wrth drafod sawl llwyed o siwgr sydd yn eu hoff ddiod mewn gwers gwyddoniaeth. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae bron bob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau darllen ar goedd ac yn gwneud hyn yn gynyddol hyderus. Defnyddiant strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn darllen yn gywir ac yn rhugl. Gall y rhan fwyaf drafod cynnwys testun yn ystyrlon gan gyfeirio at ddigwyddiadau a chymeriadau yn y llyfrau maent yn eu darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gywir a hyderus yn y Gymraeg. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda i gefnogi eu gwaith mewn ystod o bynciau. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Maent yn mynegi barn am lyfrau ac yn disgrifio'r prif gymeriadau a rhediad y digwyddiadau o fewn y straeon yn ystyrlon. Maent yn defnyddio gwahanol strategaethau darllen yn fedrus i ddod o hyd i wybodaeth i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth astudio'r Ail Ryfel Byd.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn llwyddiannus, gan amrywio brawddegau ac atalnodi eu gwaith yn gyson. Mae rhan fwyaf yn ysgrifennu'n briodol i'w hoed ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth ysgrifennu am wahanol rannau o'r corff. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd ac yn defnyddio eu medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg at wahanol ddibenion yn effeithiol. Ar frig yr ysgol, maent yn ysgrifennu darnau estynedig o ansawdd da, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygl papur newydd ddychmygol yn dilyn ffrwydrad y llosgfynydd yn Pompeii. Mae'r rhan fwyaf ohonynt

yn dewis geirfa ddiddorol ac yn sillafu, atalnodi a pharagraffu'n gywir. Maent yn cymhwyso amryw ffynhonnell i gasglu gwybodaeth, er enghraifft wrth ysgrifennu am y diwydiant llechi. Mae cyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn daclus.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dangos gafael sicr o ffeithiau rhif, sy'n briodol i'w hoedran, ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod o fedrau mesur yn gywir, er enghraifft wrth fesur gwahanol rannau o'r corff. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio arian yn hyderus wrth dalu am eitemau mewn siop ffrwythau. Maent yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol, er enghraifft wrth greu graff o wahanol greaduriaid sy'n byw yng ngardd yr ysgol. Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Ar frig yr ysgol, maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen ac ar bapur. Maent yn cymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm gyda chywirdeb da, er enghraifft wrth ddatrys problemau yn ymwneud â'u hastudiaeth o'r diwydiant llechi. Maent yn casglu gwybodaeth a chanlyniadau mewn modd systematig. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cyflwyno eu casgliadau yn gywir ar ffurf tablau a graffiau wrth gymharu pa ddeunydd sy'n insiwleiddio orau mewn gwers gwyddoniaeth.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn briodol mewn meysydd dysgu ac ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio pecynnau TGCh yn hyderus i wneud cyflwyniadau o'u gwaith, er enghraifft wrth i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen gyfuno llun a thestun i gefnogi eu gwaith am y cartref. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn effeithiol, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth am effaith y Blitz ar Abertawe. Maent yn defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac yn effeithiol, er enghraifft wrth greu ffeil o ffeithiau am y planedau. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio pecyn bas data syml yn effeithiol, er enghraifft wrth greu graff bloc i gofnodi lliwiau gwallt disgyblion y dosbarth. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ennill dealltwriaeth gymwys o sut i ddefnyddio taenlenni i greu graffiau a siartiau. Ar frig yr ysgol, gall rhan fwyaf y disgyblion fwydo cronfa ddata'n gywir er mwyn creu graffiau i gefnogi eu gwaith, er enghraifft wrth gofnodi ymchwiliad i effaith ymarfer corfforol ar guriad y galon. Fodd bynnag, dim ond ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl sy'n datblygu dealltwriaeth glir o sut i drin neu greu taenlenni i fodelu rhyngweithiadau byd go iawn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol. Ar brydiau, fodd bynnag, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnodi'r ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwyliedig wedi amrywio, ond gan amlaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y deilliant uwch, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd gan amlaf yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch ond yn y 50% is mewn datblygiad mathemategol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gan amlaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefel uwch, mae perfformiad yn y pedwar pwnc wedi amrywio'n fawr ac nid oes patrwm cyffredinol.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd ac yn meddu ar agwedd gadarnhaol tuag at fwyta ac yfed yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o elfennau sy'n debygol o effeithio ar eu hiechyd.

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda ac maent yn gwrtais a chroesawgar at ymwelwyr. Maent yn ofalus o'i gilydd ac yn dangos parch tuag at blant, staff ac ymwelwyr. Mae gan y rhan fwyaf agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith ac maent yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn deall yn dda y meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn asesu eu cynnydd eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn parchu llais a barn disgyblion. Mae gan aelodau'r cyngor ysgol a'r grŵp gwyrdd ddylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol trwy fentrau amrywiol, er enghraifft wrth wella'r ddarpariaeth yn y clwb brecwast. Maent yn ddiwyd wrth drefnu gweithgareddau cyson i godi arian at nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill llai ffodus. Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned ac yn aml yn cymryd rhan flaenllaw mewn digwyddiadau cymdeithasol yn lleol drwy gynnal cyngherddau a chystadlu mewn eisteddfodau. O ganlyniad, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gref o'r gymuned leol.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi bod ymhlith y 25% isaf o ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae bron bob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol sydd yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn fwriadus er mwyn sicrhau bod profiadau dysgu yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Darperir profiadau diddorol i hyrwyddo'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae ystod dda o weithgareddau allgyrsiol, sy'n cynnwys ymweliadau amrywiol yn yr ardal leol, er enghraifft tref Porthmadog, sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'u hamgylchedd ac etifeddiaeth forwrol a diwydiannol yr ardal leol.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael ei gynllunio a'i blethu'n effeithiol i''r cynlluniau gwaith. Mae hyn yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn y ddau gyfnod allweddol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau TGCh y disgyblion yn ddigon trylwyr. O ganlyniad, nid yw'r ddarpariaeth yn rhoi cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae'r cwricwlwm yn hybu dealltwriaeth o iaith a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau gwerthfawr i hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru, er enghraifft drwy astudio chwedlau ac astudio effaith y diwydiant twristaidd ar y Parc Cenedlaethol.

Mae'r athrawon yn darparu profiadau buddiol sy'n hybu ymwybyddiaeth disgyblion o faterion cynaliadwyedd. Enghraifft dda o hyn yw gwaith y grŵp gwyrdd wrth ddatblygu'r ardal allanol. Mae cyfleoedd diddorol i ddysgu am ddinasyddiaeth fyd eang sy'n magu dealltwriaeth disgyblion o fywyd pobl mewn gwledydd eraill yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw gweithgareddau'r disgyblion wrth gymharu eu bywyd yng Nghymru â bywyd plentyn yn India.

**Addysgu: Da**

Mae'r athrawon yn llwyddo i feithrin a chynnal perthynas waith dda rhyngddynt a'r disgyblion ac yn creu awyrgylch dysgu cynhaliol yn y gwersi. Ar draws yr ysgol, maent yn cynllunio gwersi sy'n ysgogi diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion yn llwyddiannus. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol. Yn y rhan fwyaf o wersi, lle mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae ffocws clir ar gyfer atgyfnerthu medrau disgyblion. Mae'r athrawon yn holi cwestiynau treiddgar a chynnig cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion weithio mewn parau ac mewn grwpiau bach. Mae'r cynorthwywyr dosbarth yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu'r disgyblion ac yn cynnig cymorth da yn ôl anghenion disgyblion unigol er mwyn iddynt gwblhau eu tasgau. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafaredd. Yn yr ychydig o enghreifftiau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae gor-gyfarwyddo yn cyfyngu ar allu'r disgyblion, yn enwedig y rhai o allu uwch, i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu eu hunain. O ganlyniad, nid oes digon o her i sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd llawn bob tro.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o fwriadau dysgu ac yn trafod meini prawf llwyddiant yn effeithiol. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Mae athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn gyson ac yn cynnig sylwadau adeiladol, gan gynorthwyo disgyblion i wybod sut i wella eu gwaith. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd yn datblygu'n dda.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir ar gyfer cofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio canlyniadau asesiadau yn effeithiol i drefnu cymorth ychwanegol i ddisgyblion penodol, sy'n cyfrannu at wella deilliannau. Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion statudol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, ddiogel a chynhwysol, sy'n hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff yn effeithiol gan ddarparu amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol gwerthfawr. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi mabwysiadu gweithdrefnau cadarn i godi presenoldeb sydd wedi arwain at welliant; er hyn, nid ydynt hyd yma wedi cael digon o effaith ar gyfraddau presenoldeb dros y hir dymor.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau amrywiol i sicrhau cefnogaeth fuddiol i ddisgyblion ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol, gan gynnwys cyswllt agos gyda'r gwasanaeth seicolegydd addysg sy'n sicrhau cefnogaeth dda i ddisgyblion penodol.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion dysgu'r disgyblion yn gynnar ac yn darparu cefnogaeth bwrpasol ar eu cyfer. Mae'r athrawon yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn fedrus i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Mae targedau clir a chyraeddadwy yn cael eu nodi yn y cynlluniau addysg unigol ac mae'r rhieni a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses o'u llunio a'u hadolygu.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Mae polisïau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth yn effeithiol. Mae'r ysgol yn annog cydweithrediad, gofal a goddefgarwch rhwng oedolion a phlant a rhwng plant a'i gilydd yn llwyddiannus ac yn talu sylw i gyfraniad pob unigolyn a'i safbwyntiau.

Mae'r safle a'r adeilad yn cael eu cynnal a'u cadw'n lân a graenus. Mae'r safle yn darparu amgylchedd ysgogol a diogel ar gyfer y disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio adnoddau a thir yr ysgol yn effeithiol i annog disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas. Gwneir defnydd pwrpasol o'r ardal allanol ysgogol ar gyfer hyrwyddo egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, sy'n ehangu profiadau dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Mae amrywiaeth o arddangosfeydd chwaethus o weithgareddau a gwaith disgyblion ar waliau'r ystafelloedd yn rhoi bri ar eu cyflwyniadau ac yn ychwanegu at ethos cartrefol a chroesawgar yr ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn a chyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae ganddi weledigaeth sy'n seiliedig ar safonau uchel, hapusrwydd a lles disgyblion. Mae'n rhannu'r weledigaeth yn effeithiol gyda'r staff, rhieni a llywodraethwyr. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgar ac mae ganddi strwythurau a pholisïau clir sy'n cyfrannu'n llwyddiannus tuag at wireddu ei hamcanion. Yn ddiweddar, mae'r arweinwyr wedi ailstrwythuro'r tîm rheoli, gydag aelodau newydd yn cychwyn ymgyfarwyddo â'u rolau yn briodol. Mae hyn eisoes wedi dechrau arwain at sicrhau gwell cysondeb yn y drefn cynllunio ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i weld effaith hyn ar safonau gwaith disgyblion a gweithdrefnau'r ysgol.

Mae cyfrifoldebau staff wedi eu diffinio'n glir ac ethos o gydweithio fel tîm yn bodoli ymysg y staff. Mae ganddynt ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau trwy gydweithio cadarnhaol. Mae'r pennaeth yn effeithiol wrth adnabod cymhwysedd ac arbenigedd athrawon unigol ac, o ganlyniad, yn dyrannu cyfrifoldebau'n synhwyrol. Gwneir defnydd effeithiol o gyfarfodydd staff rheolaidd i drafod cynllunio, blaenoriaethau a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae pob aelod o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda mewn perthynas â chynlluniau strategol yr ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol. Maent yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol ac yn cynnig cyfleoedd da i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth weithredu Siarter Iaith Gwynedd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn siarad mwy o Gymraeg o gwmpas yr ysgol ac mae safon eu medrau llafar wedi gwella.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol â'r mannau sydd angen eu gwella. Mae eu hymweliadau rheolaidd â'r dosbarthiadau yn gymorth iddynt chwarae rôl weithredol wrth fonitro a phennu blaenoriaethau datblygu. Mae hyn yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus am ei pherfformiad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth wedi datblygu gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Maent yn cynnwys dadansoddi data perfformiad, arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a thrafodaethau arfarnol gyda'r staff a'r llywodraethwyr ynglŷn â safonau a'r ddarpariaeth. Defnyddir y wybodaeth yn effeithiol i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd gwella sydd angen eu blaenoriaethu. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn drylwyr ac yn cynnig darlun cywir o'r ysgol. Mae'n amlygu'n glir yr agweddau sydd angen sylw penodol er mwyn gwella.

Mae cyswllt agos yn bodoli rhwng deilliannau'r hunanarfarnu â blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun yn fanwl, yn nodi nifer rhesymol o flaenoriaethau perthnasol a chyraeddadwy, ac yn cynnwys meini prawf llwyddiant addas sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau disgyblion. Mae wedi ei ariannu'n addas ac wedi ei osod o fewn fframwaith amser ymarferol. Caiff y cynllun ei fonitro'n effeithiol gan y pennaeth a'r staff ac mae hyn yn sicrhau bod cynnydd da yn cael ei wneud yn erbyn y blaenoriaethau. Mae'r datblygiad yn ansawdd ysgrifennu estynedig disgyblion a'r cysondeb yn yr arfer asesu ar gyfer dysgu yn enghreifftiau da o hyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau buddiol sydd yn ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae perthynas dda rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol, ac mae ffocws y pennaeth ar hybu cydweithrediad yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth gyson rhieni.

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau effeithiol gydag asiantaethau arbenigol a'r awdurdod lleol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae trefniadau priodol ar gyfer derbyn disgyblion i'r dosbarth meithrin gan gynnwys cysylltiadau buddiol gyda darparwyr cyn-ysgol. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymgartrefu'n fuan yn y dosbarth meithrin. Mae cysylltiadau cadarn a threfniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd ac mae amrywiaeth o weithgareddau pontio llwyddiannus ar gyfer disgyblion. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion hŷn i baratoi'n addas ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant iach o gydweithio gydag ysgolion eraill i rannu arfer dda. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at wella'r ddarpariaeth a chodi safonau, er enghraifft wrth gysoni'r arfer asesu ar gyfer dysgu a gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion. Mae athrawon yn cydweithio'n bwrpasol gydag ysgolion y dalgylch a'r ysgol uwchradd i gymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd. Mae hyn yn cryfhau eu dealltwriaeth o ofynion asesu cywir ac yn sicrhau bod eu hasesiadau'n ddibynadwy.

Mae partneriaeth gadarn â'r gymuned leol. Mae ymweliadau â'r gymuned, er enghraifft drwy gynnal gwasanaethau mewn capel lleol, yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu hardal leol. Mae cysylltiadau cryf gyda mudiad yr Urdd yn cryfhau ymwybyddiaeth y disgyblion o'u Cymreictod.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer briodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm. Mae cymorthyddion yn cefnogi staff a disgyblion yn effeithiol ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar safonau, lles a medrau cymdeithasol y disgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer darparu amser cynllunio, paratoi ac asesu i'r athrawon yn addas. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu rheoli'n ofalus er mwyn sicrhau bod athrawon yn cyd-drafod cynlluniau i wella ansawdd yr addysgu. Mae hyn wedi arwain at wella ansawdd ysgrifennu estynedig disgyblion.

Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad proffesiynol y staff.  Mae nifer o gysylltiadau ag ysgolion cyfagos yn cynnig cyfleoedd buddiol i athrawon gyfnewid arfer dda.  Enghraifft fuddiol o hyn yw’r ymweliadau diweddar i arsylwi arfer dda parthed cynllunio ar gyfer dosbarthiadau oed cymysg.

Mae amrediad eang o adnoddau safonol yn yr ysgol ac mae staff yn eu rheoli’n bwrpasol i sicrhau mynediad llawn i bob agwedd o’r cwricwlwm.  Mae hyn i’w weld yn amlwg yn y defnydd effeithiol a chyson a wneir o’r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn monitro a rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus.  Gwnânt ddefnydd pwrpasol o’r Grant Gwella Ysgolion yn bennaf i ariannu cymorthyddion dysgu i gefnogi datblygiad medrau sylfaenol disgyblion o fewn y dosbarth.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612015 - YSGOL GYNRADD BORTH-Y-GEST**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 67 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.8 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 10 | 4 | 4 | 8 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 80.0 | 100.0 | 75.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 4 | 4 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | 100.0 | 75.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 40.0 | 0.0 | 50.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 4 | 4 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | 100.0 | 75.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 30.0 | 25.0 | 25.0 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 4 | 4 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 60.0 | 100.0 | 75.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612015 - YSGOL GYNRADD BORTH-Y-GEST**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 67 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.8 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 8 | 11 | 2 | 10 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 87.5 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 11 | 2 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 37.5 | 45.5 | 50.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 11 | 2 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 37.5 | 45.5 | 50.0 | 30.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 11 | 2 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 37.5 | 45.5 | 50.0 | 30.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 11 | 2 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 37.5 | 54.5 | 50.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 27 | 27<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 27 | 27<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 27 | 27<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 27 | 27<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 27 | 27<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 27 | 27<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 27 | 27<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 27 | 27<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 27 | 26<br>96%<br>91% | 1<br>4%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 27 | 26<br>96%<br>95% | 1<br>4%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 27 | 27<br>100%<br>77% | 0<br>0%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 27 | 26<br>96%<br>84% | 1<br>4%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 20 | 11 | 9 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 55% | 45% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 20 | 12 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 20 | 15 | 5 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 20 | 14 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 20 | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 50% | 40% | 10% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 20 | 12 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 20 | 13 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 20 | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 50% | 45% | 5% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 20 | 13 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 20 | 16 | 4 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 20 | 14 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 17 | 10 | 7 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 59% | 41% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 20 | 11 | 9 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 55% | 45% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 20 | 14<br>70% | 6<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 18 | 10<br>56% | 7<br>39% | 1<br>6% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 20 | 11<br>55% | 9<br>45% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 17 | 10<br>59% | 6<br>35% | 1<br>6% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 20 | 10<br>50% | 8<br>40% | 2<br>10% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 20 | 9<br>45% | 10<br>50% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Rhodri Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Joanna Thomas | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.